# Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

## EUR(2) 04-06 (p.5)

### Dyddiad: 10 Mai 2006
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, Bae Caerdydd
### Teitl: Blaenraglen Waith Strategol, Mai 2006 – Ebrill 2007

**Bydd y Pwyllgor fel arfer yn ystyried y canlynol ym mhob cyfarfod:**

Adroddiad gan y Prif Weinidog;

Adroddiadau gan Aelodau Pwyllgor y Rhanbarthau, Aelodau o Gymru yn Senedd Ewrop a Swyddfa'r Comisiwn yng Nghymru, os yn bresennol;

**Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried yr eitemau canlynol ar adegau priodol yn ystod y flwyddyn:**

Rhaglen Waith Flynyddol y Comisiwn Ewropeaidd a gyhoeddir ym mis Rhagfyr bob blwyddyn, ac adolygiad canol blwyddyn. O'r rhaglen, bydd y Pwyllgor yn nodi'r materion i'w hystyried yn fanwl. Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried adroddiadau cynnydd gan y Comisiwn a dogfennau strategol fel ei Datganiadau Polisi Blynyddol;

Cynrychiolwyr y gwledydd sy'n Llywyddu'r Undeb Ewropeaidd, os yn bosibl, ddwywaith y flwyddyn;

**Bydd y Pwyllgor yn ystyried y datblygiadau o ran yr eitemau canlynol:**

Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd a Pholisi Cydlyniant; cynnal trosolwg o'r broses o roi'r rhaglenni presennol ar waith a'r datblygiadau ar gyfer y dyfodol, gan dalu sylw arbennig i'r blaenoriaethau ar gyfer Cymru ar ôl 2007;

Polisi Rhanbarthol Ewropeaidd, yn cynnwys ystyried y Canllawiau Rhanbarthol drafft a'r Map Cymorth Gwladwriaethol pan fydd ar gael;

Y cynnydd a wnaed gyda Strategaeth Lisbon ar gyfer twf economaidd, yng nghyd-destun polisïau Llywodraeth y Cynulliad sydd wedi'u nodi yn ‘Cymru: Economi yn Ffynnu';

Ehangu'r Undeb Ewropeaidd;

Y System Rhybudd Cynnar ar gyfer Sybsidiaredd, yn cynnwys cymryd rhan mewn prosiect peilot arall a drefnir gan Bwyllgor y Rhanbarthau;

Perthynas â gwledydd eraill Ewrop;

Cysylltiadau allanol ehangach, yn cynnwys Strategaeth Cysylltiadau Allanol Llywodraeth y Cynulliad;

Yn ogystal â'r rhai a gaiff eu crybwyll uchod, bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried yr eitemau canlynol o Raglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer 2006:

Y Papur Gwyn ar y Strategaeth Gyfathrebu

Dyfodol y Cytuniad Cyfansoddiadol: Cynllun D

Cynllun Gweithredu Cymorth Gwladwriaethol: Canllawiau Cymorth Rhanbarthol 2007-2013

Y Gyfarwyddeb Gwasanaethau;

Y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith;

Bydd y Pwyllgor yn cynnal trosolwg o brosesau Pwyllgorau Pwnc y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer craffu ar bolisïau a deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd;

Bydd y Pwyllgor yn cynnal ac yn datblygu cysylltiadau cydweithredol â Phwyllgorau Ewropeaidd eraill y Deyrnas Unedig, ar lefel swyddogol a gwleidyddol.

**Sandy Mewies AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor**